OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 814 (Cy.99)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'i wneud - - 20 Mawrth 2003

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(1)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 27(9) a 154(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003 yn union ar ôl i'r prif Orchymyn ddod i rym.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn"("*the principal Order*") yw Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003(**2**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio'r prif Orchymyn

2.—(1) Diwygir y prif Orchymyn yn unol â pharagraffau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol:

"ystyr "cyflogai sy'n trosglwyddo" ("*transferring employee*") yw person

(a) nad yw ei gontract cyflogaeth gyda chyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru wedi dod i ben cyn y dyddiad trosglwyddo (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser, neu fel arall);

(b) y mae ei waith o dan y contract hwnnw wedi cynnwys cyflawni swyddogaethau awdurdod iechyd Cymreig cyn y dyddiad trosglwyddo; ac

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) O.S. 2003/813 (Cy.98).